

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

Dyma ymateb y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol i ymchwiliad y Pwyllgor
Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i ganfod a ddylid datganoli darlledu i
Gymru.

Mae gwybodaeth bellach am y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol i'w gael yma:

www.cyfathrebu.cymru

- Pa agweddau ar ddarlledu y dylid eu datganoli i Gymru, os o gwbl?

Yn gychwynnol mae eisiau datganoli pwerau rheoleiddio darlledu o Loegr
(Ofcom) i gorff Cymreig yng Nghymru.

Mae'r diffyg enfawr ym maes rheoleiddio'r cyfryngau yng Nghymru ar hyn o
bryd yn gyfrifol am ddiffyg democratiaeth difrifol yng Nghymru. Mae diffyg
rheoleiddio pwrpasol Ofcom dros faterion cyfathrebu yng Nghymru yn golygu
fod anwybodaeth a cham ddealltwriaeth o'n system lywodraethol yng Nghymru,
ar lawr gwlad, yn rhemp.

Nid yw'r cyfryngau sydd yn deillio o Loegr (mwyafrif llethol o'r sianeli radio a
theledu sydd yn cael eu darlledu yng Nghymru) yn ymdrin â phynciau gydag
ystyriaeth fod Cymru yn wahanol. Er enghraifft, yn amlach na pheidio, nid oes
sôn am bwerau sydd wedi'u datganoli. Sonir yn unig am ddeddfau a materion
fel y maent yn Lloegr, heb dalu unrhyw sylw i lywodraethiant yng Nghymru a

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting

CWLC DoB10

Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National Communications Council

ffeithiau sydd yn aml yn wahanol am Gymru. Mae hyn yn arwain at ddiffygion

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting

CWLC DoB10

Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National Communications Council

democratiaeth difrifol gan na wyr pobol Cymru ble mae penderfyniadau yn cael eu gwneud, felly ni wyr pobol sut a ble mae dwyn dylanwad. Mae'r hyn oll yn wir am y cynnwys ar radio, teledu, mewn papurau newydd ac ar y wê. Credwn felly bod angen datganoli pwerau darlledu yn yr holl feysydd hyn.

Oherwydd trefn ddarlledu wan iawn Cymru does dim system graffu gyfryngol gref gennym ar ein sefydliadau llywodraethol. Mae oblygiadau democrataidd hyn yn ddifrifol.

Mae'r diffygion rheoleiddio hefyd yn ymestyn i fynediad pobol Cymru i'r wê.

Mae targedau sydd yn cael eu gosod gan Lywodraeth San Steffan ar gyfer cyrhaeddiad y wê yn cael ei bennu yn ôl canran holl boblogaeth / aneddau y 'Deyrnas Gyfunol', yn hytrach na fesul gwlad oddi fewn i ynnysoedd Prydain.

Medrir cyrraedd y targedau hyn wrth ddarparu ar gyfer dinasoedd a threfi Lloegr yn unig, a chyrraedd y targed, gan olygu nad yw Cymru yn elwa o'r targedau hyn o gwbl. Mae'r dull hwn ynddo ei hun, yn ein barn ni, yn afiach gan ei fod yn ddull sydd, nid yn unig, yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd yn dymuno creu eu cartrefi a sefydlu eu busnesau yn y wlad, ond hefyd yn gwahaniaethu yn erbyn rhai o'r gwledydd oddi mewn i'r wladwriaeth. Credwn fod iechyd cefn gwlad unrhyw wlad, a'r parch sydd yn cael ei ddangos tuag ato yn hanfodol i lwyddiant gwlad waraidd. Drwy ddatganoli darlledu gellid sefydlu system llawer mwy addas parthed cyrhaeddiad y wê.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

Mae'n allweddol bod dewis gan bobol Cymru i aros yn eu cymunedau ac i allu rhedeg eu busnesau o'r fan honno. Mae'n hanfodol bod Cymru yn gallu gosod ei rheolau ei hun yn y maes hwn. Er enghraifft, pan gyflwynodd Llywodraeth San Steffan gyfleon i gwmnïau ymgeisio am dendr 3G, y cytundeb oedd ymgeisio am tua 70% o'r gwasanath yn hytrach na, dyweder, 99% ohono fel a wnaethpwyd yn Sweden. Ond y gwahaniaeth oedd mai mond £100,000 ddaeth nôl i Drysorlys Sweden, gyda £2.3 biliwn yn dod nôl i Drysorlys San Steffan, drwy werthu'r sbectrwm. Roedd hyn oherwydd y gwahaniaeth yn natur y gofynion a roddwyd i gwmnïau 'fidio' amdanynt gan San Steffan i'w cymharu â gofynion Sweden, a oedd llawer mwy uchelgeisiol a chyfatral. Felly arweiniodd hyn at ddarpariaeth gwe gwell a thecach yn Sweden. Mae rhai gwledydd yn dewis gwneud fel y gwnaeth y Deyrnas Unedig ac yn gosod targed isel iawn, ond yn rhoi'r arian sydd yn dod nôl i'r Trysorlys i gyd mewn pot ac yn ei 'ringffenso' yn benodol ar gyfer gwella'r wê mewn ardaloedd gwledig. Mae rhai gwledydd yn gwneud fel mae Sweden yn ei wneud, gwledydd eraill yn gwneud cyfuniad o'r ddau. Mae angen i Gymru gael y pŵer i allu llunio ei gweledigaeth ei hun parthed hyn, yn ôl anghenion ein gwlad a'n pobol, i wireddu hyn mae angen i bŵer rheoleiddio ym maes y wê gael ei ddatganoli i Gymru.

O ddatganoli darlledu gellir hefyd codi ardoll ar gwmnïau mawrion megis Netflix, Google, Amazon a.y.y.b. sydd yn gweithredu ac yn gwneud eu harian yng Nghymru ond sydd ddim yn talu trethi yma. Mi allai hyn er enghraifft dalu

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting

CWLC DoB10

Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National Communications Council

am greu mwy o ddeunydd ar lein yn Gymraeg a fyddai yn sicrhau bod y

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

Gymraeg yn perthyn i'r oes sydd ohoni ac yn byw i'r dyfodol – mewn byd ble mae cyfalafiaeth a globoleiddio yn milwrio yn ei herbyn.

Mae'r Gymraeg wedi dioddef yn enbyd oherwydd nad yw darlledu wedi cael ei ddatganoli i Gymru. Er bod dros ddeugain mlynedd ers sefydlu ein hunig sianel radio a'n hunig sianel deledu Cymraeg, mae'n parhau i fod felly – un sianel deledu ac un gorsaf radio trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae hyn er gwaethaf y cynnydd aruthrol mewn sianeli Saesneg sydd ar gael i ni erbyn hyn. Yn ogystal, ychydig iawn mae cylch gorchwyl S4C wedi datblygu yn yr oes dechnolegol sydd ohoni, dyma sydd wedi digwydd (neu heb ddigwydd) tra fod y grymoedd yn San Steffan gyda'r DCMS a chydag Ofcom. Mae'r diffyg dewis cyfryngau Cymraeg yn gyffredinol hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i dranc yr iaith wrth iddi fethu a symud ymlaen gyda'r oes nac ymateb yn briodol i ddatblygiadau. Mae'r diffyg dewis cynnwys hwn yn ganlyniad i agwedd Ofcom tuag at greu marchnad cyfryngau Cymraeg.

Credwn felly fod angen sefydlu nifer o sianeli radio a theledu Cymraeg ac hefyd nifer o sianeli a gorsafoedd Cymreig yn yr iaith Saesneg. O wneud hyn, mi fyddai yn dilyn bod angen i Gymru, o drosglwyddo pwerau Ofcom i sefydliad yng Nghymru, gael y pwerau rheoleiddio dros amlygrwydd sianeli ar Appiau cwmniau megis Freeview, Sky, Samsung, Virgin a.y.y.b. Y corff cyfathrebu yng

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting

CWLC DoB10

Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National Communications Council

Nghymru hefyd wedyn fyddai yn gyfrifol am reoleiddio pa donfedd a fyddai'n

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

perthyn i ba sianel yng Nghymru. Yn dilyn hynny, byddai setiau teledu sy'n cael eu gwerthu yng Nghymru ac i aneddau Cymru yn gorfod cyd-fynd â rheoliadau amodau a gofynion rheoleiddwyr Cymru.

Does dim lluosogrwydd cyfryngol gwirioneddol ar radio a theledu yn y newyddion Cymraeg – mae gan y BBC bron fonopoli llwyr drosto, yn ganlyniad i ffyrdd Ofcom o weithio. Ond wedi dweud hynny, o leiaf mae gennym rai rhaglenni mwy Cymreig eu naws trwy gyfrwng y Gymraeg a phapurau megis Golwg, y Cymro a'r Faner Newydd. Mae'n dlawd iawn ar y di-Gymraeg yng Nghymru o ran newyddion Cymreig er bod mwy o ddewis o newyddion Seisnig ar gael iddynt.

O ddatganoli darlledu yn llwyr i Gymru ac i'r Cynulliad byddai modd hefyd hybu datblygiadau technolegol, yn ogystal â datblygiadau cynnwys yn y Gymraeg.

Yn sicr mae lle i ystyried yn ddifrifol rheoleiddio y wasg brintiedig a'u gwefannau cysylltiol sydd yn cael eu gwerthu yng Nghymru, o ran bod rhaid i'r storïau fod yn ffeithiol gywir am Gymru, gydag er enghraifft storïau am feysydd wedi'u datganoli yn nodi hynny ac yn rhoi ystyriaeth i hynny, a bod storïau 'Cymreig' ynddynt.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

Yn ogystal â hyn, mae rheoleiddiadau Ofcom o ran radio a theledu lleol yng Nghymru yn hollol anaddas i'n cenedl. Enghraifft amlwg ydy radio 'lleol' Ceredigion sydd yn cael ei ddarlledu o Gaerdydd (ar y cyd gyda sawl radio 'lleol' arall) ac sydd heb air o Gymraeg yn angenrheidiol, o dan y rheoliadau. Er cael eu herio mae Ofcom wedi mynnu bod y rheoliadau hyn yn addas.

Credwn y dylsai gweledigaeth ddarlledu Cymru fod yn wahanol i un Lloegr – dylswn greu ein gweledigaeth ein hunain gyda bywydau pobol llawr gwlad yn ganolog iddi, ac yn adlewyrchu gwerthoedd a dyheadau pobol Cymru. Dylai y gyfundrefn gael ei datganoli yn llwyr i bedwar ban Cymru yn hytrach na'i chanoli yng Nghaerdydd fel y byddai'n wir berthnasol ac atebol i'r gynulleidfa. Byddai system o'r fath yn ymbweru pobol Cymru i greu ac i berchnogi ei chyfryngau ei hun. Dylsem edrych ar enghreifftiau byd-eang a chymryd cyngor a syniadau oddi wrth ein pobol ni ein hunain.

Credwn felly fod angen datganoli maes teledu, radio, y wê, y wasg brintiedig a newyddion ar lein.

- **Sut y gallai datganoli darlledu fod o fudd i Gymru ac i gynulleidfaedd Cymru?**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

Fel y nodir uchod byddai datganoli darlledu_o fudd i Gymru ac i gynulleidfaeodd Cymru trwy warchod ac ehangu democratiaeth, gwella darpariaeth ym mhriod iaith Cymru, cynyddu yn aruthrol gyfleon gwaith ym maes darlledu, craffu ar sefydliadau llywodraethu Cymru, bod dyheadau a gwerthoedd pobol Cymru yn cael eu hadlewyrchu yn ein rheoliadau darlledu a gwella cyfleon i fyw a gweithio yng nghefn gwlad. Mae gan hyn oll effeithiau pell gyrhaeddol eraill wrth i ni ymgynraedd i fod yn genedl iach, waraidd.

Tybiwn ei bod yn hollol deg i ddweud fod Cymru wedi colli'i llais ar radio yng Nghymru.

Yn ogystal, yn 1998 roedd yna chwech gorsaf radio masnachol yn darlledu rhaglenni Cymraeg. Dim ond dau sydd yn gwneud hynny erbyn hyn – Capital Cymru a Sain Abertawe. Mae Cymru wedi colli dros 50 awr o raglenni Cymraeg yr wythnos ers 1998.

Mae Ofcom yn Llundain wedi sicrhau dinistrio gwasanaeth masnachol Cymraeg drwy eu polisi i gloi radio masnachol lleol. Hynny yw, y ffaith mai polisi Ofcom (a Llywodraeth Llundain) yw rhoi caniatad i gwmnïau fel Global Radio i gloi brandiau masnachol lleol fel yr hen Champion FM neu Red Dragon Radio a'u troi nhw mewn i rwydwaith radio prydeinig fel Heart FM neu Capital FM gyda'r rhan fwyaf o'u rhaglenni yn darlledu o stiwdios Llundain.

Byddai awdurdod Gymreig yn gallu trawsnewid hyn ac agor tonfeydd newydd ar

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council
gyfer gwasanaethau Cymraeg.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

Byddai awdurdod Gymreig hefyd yn hybu'r Gymraeg mewn technoleg newydd fel Alexa a phodlediadau.

Mi fyddai hefyd yn bosibl, ar ôl datganoli darlledu, i newid rheolau masnachol i sicrhau arian hysbysebu ar gyfer radio cymunedol. Ar hyn o bryd, mae gorsafoddd cymunedol dan reolaethau llym parthed faint o arian maen nhw'n gallu creu trwy hysbysebion (o achos fod cwmnïau masnachol yn cwyno am hyn).

- **Y BBC, gan gynnwys ei lywodraethu a'i ariannu.**

Corff Prydeinig yw'r BBC o ran ei natur gynhenid – mae cliw yn yr enw British Broadcasting Corporation. Mae'n dal yn gorff Llundainig ganolog er gwaethaf ymdrechion i ddatganoli yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r gwasanaeth yn sawru o drahaustra y dyddiau pan oedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn tra arglwyddiaethu. Mae'r BBC yng Nghymru yn cael ei reoli gan y BBC yn Lloegr. Cymru fyddai a'r dewis ynglyn a sut berthynas fyddai ganddi gyda'r BBC, os o gwbl. Rydym yn rhagweld mai'r prif beth y gallai'r BBC fod yn ei wneud yng Nghymru, os bydd yn dal yn bodoli, fyddai cynnig am dendrau i greu rhaglenni amrywiol.

- **S4C, gan gynnwys ei lywodraethu a'i ariannu.**

Nid yw'n addas i genedl gael dim ond un sianel deledu ac un sianel radio yn ei phriod iaith. Nid yw hi'n bosibl i un sianel fod yn bopeth i bawb. Nid yw yn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and Communications Committee

Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting

CWLC DoB10

Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National Communications Council

gynaladwy i'r sianel nac i'r iaith. Dim ond un rhan o'r gymysgedd fyddai S4C,

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

gyda'i chynulleidfa benodol ei hun (nid oes rhaid iddi aros gyda'r enw 'S4C').

O ran ariannu ein sianeli, mae pob math o opsiynau yn bosibl, gan gofio, o ystyried yr uchod, nid un sianel Gymraeg fyddai gan Gymru ac hefyd bydd gan Gymru nifer o sianeli Cymreig yn Saesneg (na fyddai'n sianeli'r BBC).

Byddai angen rhoi ystyriaeth i ariannu'r cyfan o'r rhain, a fyddai yn cael eu hariannu a'u rheoleiddio gan gorff newydd yng Nghymru.

- **Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill (ITV, Channel 4 a Channel 5).**

O reoleiddio'r 'tonfeddi' neu'r 'sbectrymau', byddai modd sicrhau blaenoriaeth ac amlygrwydd i'r sianeli Cymreig ar lwyfannau digidol. Byddai wrth gwrs dal modd gweld sianeli Lloegr pe bai'r rheoliadau yn dewis hynny, ond yn is lawr yr 'EPG' (Electronic Programme Guide). Mwy o wybodaeth uchod, yn y cwestiynau blaenorol.

- **Swyddogaethau rheoleiddio a gyflawnir ar hyn o bryd gan Ofcom.**

Gweler uchod – angen eu datganoli.

- **Gwasanaethau radio masnachol a chymunedol.**

Gweler uchod – angen datganoli.

- **Sut mae unrhyw newidiadau a gynigir yn cyd-fynd â'r newid i ddefnyddio cyfryngau digidol.**

Gweler uchod.

- **Sut y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn effeithio ar y sector cynhyrchu**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council
o ran y cyfryngau.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / Culture, Welsh Language and
Communications Committee
Datganoli Darlledu / Devolution of Broadcasting
CWLC DoB10
Ymateb gan Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol / Response from National
Communications Council

Yn sgil datganoli darlledu byddai cyfleon aruthrol yn y sector gynhyrchu o ran y cyfryngau. Byddai angen mwy o ddeunydd o bob math. Felly yn ogystal â bod yn angenrheidiol i ddemocratiaeth Cymru, mae datganoli darlledu hefyd yn cynnig cyfleon economaidd a diwylliannol di ben draw.